

28 Mehefin 2019

Annwyl

ATISN 13144

Diolch am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 2 Mai 2019. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

holl agendâu, cofnodion a phapurau Cyngor Partneriaeth y Gymraeg o 1 Ionawr 2017 ymlaen.

Amgaeir copi o'r wybodaeth y gwnaed cais amdani.

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth yn esempt o'r gofynion datgelu o dan adrannau 35 a 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r eithriadau hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnlol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnlol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnlol ni.

Yn gywir

Atodiad 1

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Gwybodaeth a gedwir yn ôl	Rhif yr adran ac enw'r esemptiad
1- Papur a chofnodion perthnasol sy'n amlinellu a thrafod gwahanol opsiynau ar gyfer polisi sydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd y papur a'r trafodaethau yn effeithio ar benderfyniadau polisi at y dyfodol mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none">• Adran 35(1)(a) – fformwleiddio polisi'r llywodraeth.
2- Cofrestr Risg fewnol Is-adran y Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none">• Adran 36(2)(b)(i) – darparu cyngor mewn modd agored a gonest• Adran 36(2)(c) – rhagfarnu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adrannau 35 a 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

1- **Gweithredu adran 35(1)(a) (fformwleiddio polisi'r llywodraeth) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod papur y seiliwyd trafodaeth arno yn ystod cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar 9 Ebrill 2019, a chofnodion y drafodaeth honno, yn ymwneud â fformwleiddio polisi'r llywodraeth am eu bod yn amlinellu nifer o opsiynau polisi posibl ar gyfer hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Rhannwyd y papur â'r Cyngor er mwyn ceisio barn a sylwadau'r aelodau ar fanteision ac anfanteision pob opsiwn. Nid yw'r cyfeiriad polisi terfynol wedi ei benderfynu hyd yn hyn, ac mae'r Cyngor yn parhau i gyfrannu at y broses o gynghori'r Gweinidog yn hyn o beth.

Mae Adran 35(1)(a) yn esemptiad amodol (sy'n destun prawf budd y cyhoedd). Mae hyn yn golygu, er mwyn ei ddefnyddio, bod yn rhaid i mi ddangos bod y budd cyhoeddus o ddal yr wybodaeth yn ei hól yn rhagori ar y budd cyhoeddus o blaid ei datgelu.

Prawf Budd y Cyhoedd: adran 35(1)(a) (Fformwleiddio polisi'r llywodraeth)

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas ag adran 35(1)(a) (Fformwleiddio polisi'r llywodraeth) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae gofyn dod i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gryfach na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth

Mae budd cyhoeddus cyffredinol yn deillio o fod yn agored a thryloyw, a byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn helpu i'w feithrin. Ymhellach, fe allai rhyddhau'r wybodaeth ganiatáu gwell dealltwriaeth o drafodaethau'r Llywodraeth ag aelodau'r Cyngor Partneriaeth wrth ddatblygu polisiau. Ar hyn o bryd, mae'r polisi yn y maes hwn ar y cam datblygu, a byddai rhyddhau'r wybodaeth yn awr yn ennyn ymwybyddiaeth o'r materion y mae'r Llywodraeth wrthi'n eu hystyried. Byddai hefyd yn gwella tryloywder o safbwynt penderfyniadau polisi'r Llywodraeth.

Mae *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* yn bolisi lefel uchel a rennir yn dair thema, sydd â'r nod nid yn unig o gynyddu nifer y siaradwyr, ond hefyd i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r iaith, a rhoi seilwaith priodol ar waith. Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan allweddol o'r darlun hwn.

Bydd y polisi penodol sy'n cael ei ddatblygu, ac y gofynnir i aelodau'r Cyngor Partneriaeth gynghori yn ei gylch yn barhaus, o ddi-ddordeb i'r cyhoedd am ei fod yn dangos yn glir i ba gyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn mynd o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg. Bu galw am eglurder mewn perthynas â'r agwedd hon ar bolisi'r Gymraeg ers amser, a nod y broses datblygu polisi sydd ar gerdded yw cynnig yr eglurder hwnnw a chymryd camau arwyddocaol i wella gweithredu yn y maes hwn.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth

Mae llywodraethu da yn dibynnu ar allu cynhyrchu'r cyngor gorau posibl a thrafod yr holl opsiynau heb ofn y caiff y rheini eu datgelu cyn pryd. Am fod y polisi dan sylw ar y cam datblygu, gyda nifer o wahanol opsiynau'n cael eu hystyried o hyd, ni ellir dweud â sicrwydd y byddai rhyddhau'r wybodaeth cyn pryd yn rhoi darlun cywir o'r canlyniad terfynol ac y byddai, mewn gwirionedd, yn mynd yn groes i fudd cyhoeddus os yw'n arwain at ledaenu gwybodaeth anghywir neu anghyflawn sy'n creu ffug ddisgwyliadau (er enghraifft, ynghylch argaeledd cymorth, neu newidiadau i bolisiau neu ddeddfwriaeth).

Rwyf o'r farn bod dadleuon budd cyhoeddus cryf dros sicrhau y cynhelir 'lle diogel' pan fydd polisiau'n cael eu trafod a'u fformiwleiddio, er mwyn sicrhau y gellir cyfnewid safbwyntiau, syniadau a chynigion mewn modd agored a gonest. Rwyf hefyd o'r farn na fyddai budd cyhoeddus yn deillio o amharu ar ansawdd y gwaith fformiwleiddio polisi sy'n cael ei wneud.

Cydbwysu budd cyhoeddus

Fel rheol, rwy'n ymwybodol bod sensitifrwydd gwybodaeth yn debygol o leihau gydag amser, fel y gall oedran yr wybodaeth, neu amseru'r cais, fod yn berthnasol wrth benderfynu p'un a ddylid defnyddio'r esemptiad, neu lle y gorwedd budd y cyhoedd. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, mae'r wybodaeth a ddarperir yn y papur trafod a'r cofnodion perthnasol yn wybodaeth gyfoes iawn am bolisi sy'n parhau i gael ei ddatblygu.

Rwyf o'r farn, felly, bod cydbwysedd budd cyhoeddus yn cwmpo o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth yng nghyswllt y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod dan sylw, am fod a wnelo'r wybodaeth hon â pholisïau sy'n dal i gael eu datblygu.

2 Gweithredu Adran 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – Cofrestr Risg Is-adran y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y dylid eithrio Cofrestr Risg fewnol Is-adran y Gymraeg rhag cael ei rhyddhau.

Gall cwmpas yr esemptiad adran 36 fod yn eang iawn, ac er mwyn gwarchod yn erbyn camddefnydd posibl ohono gan awdurdod cyhoeddus, mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cyflwyno proses dau gam wrth ystyried ei ddefnyddio. Diben cam 1 yw pennu a yw'r amodau sylfaenol ar gyfer defnyddio'r esemptiad yn gymwys. Dyma rôl yr 'unigolyn cymwys' ac mae adran 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn datgan, mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, mai ystyr yr unigolyn cymwys yw Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol. Os yw'r unigolyn cymwys, ar ôl ystyried yr wybodaeth, yn dod i'r casgliad rhesymol na fydd yr effeithiau niweidiol a bennwyd yn codi (neu na fyddant yn debygol o godi) o ryddhau'r wybodaeth, yna ni ellir dal yr wybodaeth yn ei hôl o dan adran 36.

Os yw'r unigolyn cymwys yn penderfynu y byddai'r wybodaeth, neu y byddai'r wybodaeth yn debygol, o arwain at yr effaith niweidiol a bennwyd, yna gall Cam 2 gychwyn, sef pwyso a mesur prawf Budd y Cyhoedd.

Yn yr achos hwn, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi penderfynu bod yr effeithiau niweidiol a ganlyn yn ddigonol i ganiatáu defnyddio'r esemptiadau a gynhwysir yn adran 36(2)(b)(i) a (2)(c) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Gweithredu Adran 36(2)(b)(i) – darparu cyngor mewn modd agored a gonest

Mae Cofrestr Risg Is-adran y Gymraeg yn disgrifio'r risgiau allweddol o safbwynt cyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru o dan *Cymraeg 2050*. Mae'r gofrestr hefyd yn disgrifio'r prif fesurau rheoli risg a'r camau lliniaru arfaethedig i leihau'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd a/neu effaith hynny os bydd y risg yn digwydd.

Mae'r Gofrestr Risg felly yn rhan hanfodol o strwythurau llywodraethu Llywodraeth Cymru i reoli'r risgiau o ran cyflawni amcanion Gweinidogol. Mae'n rhan orfodol o'r gofynion llywodraethu corfforaethol, ac yn rhan hollbwysig o gyfrifoldebau'r Dirprwy Gyfarwyddwr. Er mwyn i'r Gofrestr Risg fod yn ddull effeithiol sy'n cefnogi blaenoriaethau Gweinidogol a chyfrifoldebau'r sefydliad o safbwynt llywodraethu corfforaethol, mae'n hanfodol bod y gofrestr yn cynnig disgrifiad llawn a gonest o beth yw'r risgiau hyn, fel y gellir adnabod a gweithredu mesurau rheoli a lliniaru effeithiol.

Mae rheoli risgiau'n effeithiol yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion allu mynegi risgiau mewn modd llawn a gonest, fel y gellir gwneud y penderfyniadau gorau posibl i liniaru a rheoli'r risgiau hynny. Byddai rhyddhau'r Gofrestr Risg yn debygol o amharu, ar lefel isymwybodol ar y ffordd y mae'r cyfryw risgiau'n cael eu mynegi,

sy'n debygol o wneud rheoli a lliniaru'r risgiau yn anoddach. Yn ei dro, byddai hyn yn debygol o amharu ar ansawdd y penderfyniadau wrth bennu'r ymateb mwyaf priodol i risg penodol. Yn y pen draw, byddai hyn yn debygol o amharu ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau strategol.

Gweithredu Adran 36(2)(c) – cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol

Ystyrir y byddai rhyddhau Cofrestr Risg Is-adran y Gymraeg yn debygol o ragfarnu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol am y rhesymau isod:-

Mae Cofrestr Risg Is-adran y Gymraeg yn ddogfen fyw fewnol nas bwriadwyd i'w rhyddhau'n gyhoeddus. Ei diben yw helpu'r sefydliad i adnabod y risgiau o ran cyflawni, a chymryd y camau priodol i fynd i'r afael â nhw. Mae'r gallu i wneud hynny'n hanfodol os yw'r sefydliad i wneud ei waith yn effeithiol a bodloni ei gyfrifoldebau o ran cyflawni blaenoriaethau strategol.

Caiff y Gofrestr Risg ei hadolygu'n rheolaidd gan swyddogion Is-adran y Gymraeg a'i chyflwyno i Fwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050* a Chyngor Partneriaeth y Gymraeg at ddibenion monitro. Er mwyn bod yn ddull effeithiol o reoli busnes Llywodraeth Cymru, rhaid i gofrestri risg gynnwys disgrifiad llawn o'r risgiau tebygol, a'r mesurau rheoli risg a chamau lliniaru arfaethedig a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Rhaid i swyddogion sy'n gweithredu fel perchnogion risg allu darparu'r disgrifiad llawn a gonest hwn, ac mae'n debygol y byddent yn teimlo'n gyndyn o wneud hynny petaen nhw'n ymwybodol y byddai'r cofrestri risg yn cael eu rhyddhau.

Drwy gyhoeddi cofrestri risg, gall hefyd ymddangos bod risgiau posibl yn cael eu dilysu ond nad ydynt yn debygol o ddigwydd. Byddai hyn yn debygol o ragfarnu a chamliwio trafodaeth gyhoeddus ddeallus am faterion pwysig a fyddai, yn ei dro, yn debygol o effeithio ar y modd y cynhelir materion cyhoeddus. At hynny, petai rhyddhau'r wybodaeth yn arwain at sefyllfa lle byddai swyddogion, ar lefel isymwybodol, yn llai tebygol o ystyried pob risg bosibl ac yn llai agored yn y cyngor a gynigiwyd ganddynt, byddai hynny'n debygol o ragfarnu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol.

Prawf Budd y Cyhoedd – Adran 36

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas ag adrannau 36(2)(b)(i) a 36(2)(c) mae gofyn dangos bod y budd cyhoeddus o gynnal yr esemptiad yn gryfach na'r budd cyhoeddus o ryddhau'r wybodaeth, er gwaethaf y rhagfarn a fyddai, neu a fyddai'n debygol, o godi yn sgil hynny. Hynny yw, bod budd cyhoeddus yn cael ei wasanaethu orau drwy beidio â chaniatáu i'r rhagfarn godi.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth – Adrannau 36(2)(b)(i), a 36(2)(c)

Mae'r materion a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n peri risg i'w gallu i gyflawni ei hamcanion strategol, yn ogystal â'r mesurau i reoli'r risgiau hyn a'r camau lliniaru arfaethedig, yn faterion o fudd cyhoeddus dilys. Fe allai rhyddhau'r Gofrestr Risg ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd ddeall yn well rhai o'r materion sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth weithredu ei strategaeth ar gyfer y Gymraeg. At hynny, mae

budd cyhoeddus mewn sicrhau bod dogfennau llywodraethol allweddol ar gael yn hawdd er mwyn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â gweithgareddau Llywodraeth Cymru.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth – Adran 36(2)(b)(i) - Darparu cyngor mewn modd agored a gonest

Mae'r Gofrestr Risg yn rhan hanfodol o strwythurau llywodraethu Llywodraeth Cymru i reoli'r risgiau o safbwynt cyflawni ei blaenoriaethau strategol.

Ystyrir ei bod yn hanfodol osgoi rhagfarnu'r gallu i ddarparu cyngor mewn modd agored a gonest yn hyn o beth, fel nad yw'r swyddogion sy'n gyfrifol am y polisi yn cael eu hannog, ar lefel isymwybodol, i beidio â rhoi disgrifiad gonest o'r risgiau posibl a'r camau lliniaru perthnasol. Byddai rhyddhau'r Gofrestr Risg yn debygol o amharu ar y ffordd y mae'r risgiau hyn yn cael eu mynegi, gan ei gwneud yn anoddach yn y pen draw i reoli a lliniaru'r risgiau hynny. Yn ei dro, byddai hyn yn effeithio ar ansawdd penderfyniadau wrth bennu'r ymateb mwyaf priodol i risg a glustnodwyd. Yn y pen draw byddai hyn yn debygol o amharu ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau strategol o ran y Gymraeg.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth – Adran 36(2)(c) – cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol

Mae Cofrestr Risg Is-adran y Gymraeg yn ddogfen fyw fewnol nas bwriadwyd i'w rhyddhau'n gyhoeddus. Ei diben yw helpu'r sefydliad i glustnodi'r risgiau i gyflawni ei blaenoriaethau strategol a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â nhw. Mae'r gallu i wneud hynny'n hanfodol os yw'r sefydliad i wneud ei waith yn effeithiol a bodloni ei gyfrifoldebau i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol.

Mae budd cyhoeddus mewn ystyried yn fanwl y risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, a bod camau lliniaru risg effeithiol yn cael eu rhoi ar waith. Yn y pen draw, mae hyn yn helpu i sicrhau bod blaenoriaethau'r llywodraeth yn cael eu cyflawni'n effeithiol, bod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli'n effeithiol, a bod y gwasanaethau gorau posib yn cael eu darparu i bobl Cymru. Byddai rhyddhau'r Gofrestr Risg yn debygol o amharu ar y ffordd y mae'r cyfryw risgiau'n cael eu mynegi, a allai ei gwneud yn anoddach rheoli a lliniaru'r risgiau hynny.

Fe allai cyhoeddi'r Gofrestr Risg hefyd ymddangos i roi rhagor o hygredd i risgiau posibl, yn ogystal â chamau lliniaru a grybwyllwyd fel rhan o'r broses asesu risg, fyddai â'r nod o leihau'r tebygolrwydd y byddent yn digwydd, a'u heffaith. Yn hynny o beth, gallai hyn arwain at ragfarnu a chamliwio trafodaeth gyhoeddus ddeallus am faterion pwysig y gall na fyddant yn cael eu gwireddu, ond o'u cyhoeddi ar ffurf datganiad moel neu heb gyd-destun y byddai'n ymddangos yn fwy tebygol o ddigwydd. Yn ei dro, byddai hyn yn debygol o effeithio ar gynnal materion cyhoeddus mewn achosion lle mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i gymryd camau angenrheidiol i atal pob risg diangen rhag digwydd.

Asesiad o fudd cyhoeddus – Adran 36

Rydym wedi cloriannu'r gwahanol ddadleuon budd cyhoeddus a dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, bod y budd i'r cyhoedd o osgoi niwed sylweddol i'r materion a ddiogelir gan yr esemptiadau a grybwyllir uchod, yn gryfach na'r budd i'r cyhoedd o ryddhau'r wybodaeth hon.